**Cyd-gyfarfod y Cynghorau**

Cofnodion **ANGHYFYNGEDIG** y rhith-gyfarfod a gynhaliwyd am 4.00 p.m. ddydd Iau 24 Tachwedd 2022 drwy Zoom

Yn bresennol:

| | |
|---|---|
| Yr Hybarch Randolph Thomas (Cadeirydd) | Dr Conny Matera Rogers |
| Justin Albert | Dr Stuart Robb |
| Siwan Davies | Geraint Roberts |
| Taya Gibbons | Nigel Roberts |
| Yr Athro Medwin Hughes | Dr Liz Siberry |
| Uzo Iwobi | Emlyn Schiavone |
| Rowland Jones | Dr Peter Spring |
| Arwel Ellis Owen | Maria Stedman |
| Matthew Peake | Dr Kerry Tudor |
| Victoria Provis | Deris Williams |

Yn bresennol hefyd:

| | |
|---|---|
| Sarah Clark, Clerc y Cyngor | |
| Yr Athro Elena Rodriguez-Falcon, Dirprwy Is-Ganghellor | Jane O'Rourke, Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol (CGAD) |
| Yr Athro Dylan Jones, Dirprwy Is-Ganghellor | Iestyn Davies, Pro Is-Ganghellor (ar gyfer eitem 22.55) |
| Yr Athro Mirjam Plantinga, Pro Is-Ganghellor | Rebecca Doswell, Pennaeth Polisi a Chynllunio |
| Steve Baldwin, Cyfarwyddwr Adnoddau a Chynllunio Busnes | Catrin Beard (Cyfieithydd) |
| Gavin Bessant, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol (drwy Teams) | Margaret Williams (Ysgrifennydd) |

Cyn y cyfarfod cynhaliwyd sesiwn ddiweddaru fer gan Claire Godden, Swyddog Polisi a Chynllunio, ar ddefnyddio'r dangosfwrdd DPA.

| Rhif y Cofnod | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| 22.51 Ymddiheuriadau am absenoldeb a chroeso | DERBYNIWYD ymddiheuriadau am absenoldeb gan Vanessa Liverpool a Dr Andrew Cornish.<br><br>Croesawodd y Cadeirydd yr Athro Elena Rodriguez-Falcon i'w chyfarfod cyntaf | |
| 22.52 Datganiadau o fuddiannau | DERBYNIODD y Cynghorau y Datganiadau o fuddiannau fel y'i nodir yn adroddiad y Clerc (JCO167). | |
| 22.53 Adroddiad y Cadeirydd | DERBYNIODD y Cynghorau adroddiad y Cadeirydd (JCO168).<br><br>Adroddodd y Cadeirydd bod yr Is-Ganghellor wedi ysgrifennu ato i gadarnhau ei fwriad i ymddeol ar ddiwedd y flwyddyn academaidd gyfredol. Roedd y Cadeirydd wedi cydnabod y llythyr ac wedi diolch iddo am ei gyfraniad enfawr. Nawr, byddai'r broses recriwtio Is-Ganghellor newydd yn dechrau ac, yn unol â'r Ordinhad, byddai cynigion ar gyfer sefydlu Pwyllgor Penodi'n cael eu cyflwyno. CYTUNODD yr aelodau y byddai'r Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol yn dechrau'r broses o nodi ymgynghorwyr recriwtio.<br><br>Rhoddodd Is-gadeirydd PC ddiweddariad ar y sesiwn lawn CUC diweddar roedd wedi'i mynychu ar ran y Cadeirydd. Roedd y gynhadledd wedi trafod yr heriau sy'n wynebu AU ar gyfer y deng mlynedd nesaf, yn cynnwys effaith y cynnydd sylweddol mewn myfyrwyr rhyngwladol ar y sector a risg dibyniaeth ar wledydd penodol.<br><br>Adroddodd y Cadeirydd bod CPC wedi trefnu i gwrdd â'r Gweinidog ar 30 Tachwedd. Ymhlith yr eitemau i'w trafod oedd effaith yr argyfwng costau byw ar staff a myfyrwyr, a sefydlu'r TERC newydd.<br><br>CYMERADWYODD y Cynghorau benodiad Nia Morgan fel cyd-aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg o 1 Ionawr 2023 i 31 Gorffennaf 2026. | |
| 22.54 Adroddiad yr Is-Ganghellor | DERBYNIODD y Cynghorau adroddiad yr Is-Ganghellor, a gwmpasodd ystod o feysydd (JCO169).<br><br>Cyfeiriodd yr Is-Ganghellor at y datblygiadau gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac fe adroddodd bod swyddogion yn paratoi cynllun datblygu a fyddai wedi'i gwblhau erbyn y flwyddyn newydd. Cynigiwyd y byddai lansiad ffurfiol yn cael ei drefnu ym mis Chwefror/Mawrth 2023.<br><br>Dywedodd yr Is-Ganghellor ei fod wedi cychwyn nifer o adolygiadau modelu i ffocysu ar ragdybiaethau cynllunio ar gyfer twf cynaliadwy ar gyfer y dyfodol a diogelu at y dyfodol. Nododd y newid mewn demograffeg a'r twf sylweddol dros y ddeng mlynedd nesaf mewn myfyrwyr 18 oed a fydd yn ceisio AU. Roedd yr Uwch | |

| Rhif y Cofnod | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| | Gyfarwyddiaeth yn gweithio ar gyfoethogi'r cynnig ar gyfer pobl ifanc 18 oed, cryfhau'r portffolio "canol coll", cyfoethogi rhaglenni Ôl-raddedig a rhyngwladol, datblygu'r model cydffederasiwn / galwedigaethol ac addysg oedolion. Roedd y DIG (Academaidd) wedi dechrau adolygu'r portffolio academaidd. Cynigiwyd y dylid cyflwyno argymhellion i'r Cyngor eu hystyried ar yr amser priodol.<br><br>Rhoddodd y CGAD ddiweddariad i aelodau ar effaith y streic bresennol gan aelodau UCU a nododd bod yr effaith yn isel ar hyn o bryd. | |
| 22.55<br>Strwythur cydffederasiwn | DERBYNIODD y Cynghorau'r adroddiad diweddaru ar y strwythur cydffederasiwn (JCO170).<br><br>Rhoddodd yr adroddiad drosolwg o'r camau a gymerwyd i wireddu'r strwythur, yn arbennig ddatblygiad y rhwydwaith o Sefydliadau Prifysgol Technegol. Roedd y goblygiadau o ran cyllid ac adnoddau dynol ar gyfer sefydlu'r strwythur newydd o fewn y dyraniad cyllideb cytûn.<br><br>Gofynnodd yr aelodau am eglurhad o broses adrodd y gwahanol bwyllgorau a sefydlwyd mewn perthynas â'r strwythur cyd-ffederasiwn. Cadarnhaodd y Clerc bod y Weithred a sefydlwyd rhwng PC a'r sefydliadau AB wedi sefydlu dau bwyllgor - Pwyllgor Rheoli Cyd-ffederasiwn o'r Egwyddorion, sy'n adrodd wrth Bwyllgor Llywodraethu Cyd-ffederasiwn o'r Cadeiryddion. Y bwriad oedd cyflwyno adroddiadau gan y Pwyllgor Llywodraethu Cyd-ffederasiwn i'r Cynghorau ac i'r Byrddau AB yn eu tro.<br><br>Dywedodd y Pro Is-Ganghellor bod trafodaethau gyda chydweithwyr yng Ngogledd Cymru yn symud ymlaen mewn ffordd bositif a bod aelodau'r Colegau hynny yn rhan o Grŵp Cwricwlwm ac Ansawdd a sefydlwyd gan y Pwyllgor Rheoli Cyd-ffederasiwn. | |
| 22.56<br>Pennu parodrwydd i dderbyn risg | YSTYRIODD a CHYMERADWYODD y Cynghorau argymhellion y swyddogion o ran y parodrwydd i dderbyn risg i'w fabwysiadu ar gyfer 2022/23 (JCO171). | |
| 22.57<br>Rheoli Risg | YSTYRIODD y Cynghorau'r Gofrestr Risg Corfforaethol (JCO172). Roedd y Gofrestr Risg wedi'i ddiweddaru gan ymgynghori â pherchnogion risg a arweinir yn strategol ac mae wedi'i ystyried yn yr ARC ym mis Hydref 2022.<br><br>CYMERADWYODD y Cynghorau argymhelliad ARC y dylid addasu Risgiau 9 a 10 (mewn perthynas ag uwch reolwyr a'r Cyngor yn eu tro) i sicrhau bod newidiadau arfaethedig i'r arweinyddiaeth yn cael eu hadlewyrchu'n briodol, ynghyd ag ychwanegu risgiau sy'n ymwneud â'r strwythur cyd-ffederasiwn a llesiant myfyrwyr. | |

| Rhif y Cofnod | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| | | |
| 22.58<br>Adroddiad Enwebiadau a Llywodraethu | YSTYRIODD y Cynghorau adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2022 (JCO173).<br><br>CYMERADWYODD y Cynghorau argymhelliad y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu bod:<br><br>• Yr Adolygiad o Effeithiolrwydd Llywodraethu (AELI), sy'n cwmpasu'r ddau Gyngor, yn cael eu cynnal yn y gwanwyn 2023 gan gyflwyno adroddiad terfynol i'r Cynghorau ym mis Gorffennaf 2023.<br>• ymgynghorydd allanol yn cael ei benodi i arwain yr AELI.<br>• yr AELI yn ffocysu ar ddiwylliant, ymddygiad ac effaith.<br>• Byrddau is-gwmnïau priodol yn cael eu gwahodd i gwblhau asesiadau hunan-effeithiolrwydd a sgiliau yn y 12 mis nesaf.<br><br>CYMERADWYODD y Cynghorau argymhelliad y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu bod:<br>• Penodi Timothy J Llewellyn yn aelod annibynnol o Gynghorau PC a PCYDDS o'r 1 Ionawr 2023.<br>• Penodi Timothy J Llewelyn yn aelod o'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformio o fis Ionawr 2023 i Orffennaf 2025. | |
| 22.59<br>Darpar Gadeirydd y Cyngor | YSTYRIODD y Cynghorau argymhellion yr AELI mewn perthynas â'r disgrifiad o rôl ar gyfer penodi Darpar Gadeirydd y Cyngor (JCO174).<br><br>Yn dilyn trafodaeth a phleidlais, CYTUNODD y Cynghorau y byddai gallu siarad Cymraeg yn hyderus yn faen prawf hanfodol ar gyfer y penodiad a CHYMERADWYWYD y disgrifiad rôl.<br><br>Gan nodi bod y broses benodi yn fater i'r AELI ei phennu o dan Ordinhad, DERBYNIODD y Cynghorau adroddiad gan Gadeirydd yr AELI ar y trefniadau sy'n cael eu gwneud. | |
| 22.60<br>Cynllun datblygu a chadw | YSTYRIODD y Cynghorau argymhelliad AELI mewn perthynas â'r cynllun datblygu a chadw arfaethedig (JCO175).<br><br>Nododd y Cynghorau bod y cynllun wedi cael ei baratoi gan y Clerc yn dilyn proses gyda'r gwaith Advance HE i gefnogi'r sector yn y maes hwn yn dilyn yr adolygiad Camm. Yn rhannol, roedd y cynllun yn mynegi a ffurfioli'r trefniadau sydd eisoes ar waith ar gyfer aelodau'r Cyngor. | |

| Rhif y Cofnod | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| | CYMERADWYODD y Cynghorau'r cynllun datblygu a chadw, yn amodol ar ychwanegu cyfeiriad at randdeiliaid yn y rhaglen gynefino. | |
| 22.61 Protocol cyfarfodydd | Ar argymhelliad yr AELI CYMERADWYODD y Cynghorau'r protocol diwygiedig ar y defnydd o gyfieithu ar y pryd a chyfarfodydd hybrid (JCO176). | |
| 22.62 Adroddiad ar gynnydd Camm | DERBYNIODD y Cynghorau adroddiad cynnydd cynllun gweithredu Camm (JCO177). | |
| 22.63 Cofnodion y cyfarfod diwethaf | CADARNHAODD y Cyngor Gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Medi 2022 fel cofnod cywir (JCO178). | |
| 22.64 Pwyntiau Gweithredu | DERBYNIODD y Cynghorau ddiweddariad y tabl pwyntiau gweithredu (JCO179). | |
| 22.65 Dyletswydd PREVENT Adroddiad Blynyddol | CYMERADWYODD y Cynghorau Adroddiad Blynyddol Dyletswydd Prevent ar gyfer 2021/22 a oedd yn cynnwys y Gofrestr Risg Prevent a Chynllun Gweithredu Prevent fel atodiadau (JCO180).<br><br>Nododd aelodau y byddai'r Cofnodion Atebolrwydd i CCAUC yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfodydd y Cynghorau unigol. | |
| 22.65 Adroddiadau blynyddol pwyllgorau | DERBYNIODD y Cynghorau adroddiadau blynyddol 2021/22 y pwyllgorau sefydlog a ganlyn:<br>• Pwyllgor Academaidd (JCO181a)<br>• Y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu (JCO181b)<br>• Y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad (JCO181c) | |
| 22.66 Datganiadau o fuddiannau | Nid adroddwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau ychwanegol yn ystod y cyfarfod. | |
| 22.67 Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf | Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 26 Ionawr 2023. | |

Terfynwyd y cyfarfod am 17.45 p.m.